**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**13 Rhagfyr 2017**

**Eitem Rhif**

# ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# GOBLYGIADAU NODYN CYNGOR TECHNEGOL 20: CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG - O SAFBWYNT YSTYRIAETHAU CEISIADAU CYNLLUNIO

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw diweddaru aelodau ar faterion sy'n codi o safbwynt ystyried ceisiadau cynllunio wedi cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 Llywodraeth Cymru: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2017.

1.2 Mae'n cynnwys argymhelliad o ran pa ddull gweithredu i'w ddefnyddio wrth ystyried mathau penodol o geisiadau cynllunio, o safbwynt asesu effaith bosib datblygiad newydd ar anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg.

## 2. CEFNDIR.

2.1 Bydd aelodau yn cofio trafodaeth ym Mhwyllgor mis Tachwedd ar geisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiadau preswyl bach ym Mryneglwys a Chlawddnewydd. Codwyd cwestiynau ynghylch yr angen am asesiadau effaith addas gyda'r ceisiadau hyn ar gymeriad a chydbwysedd ieithyddol y cymunedau hynny.

2.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn cynnwys polisi penodol – RD5 – sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y disgwylir i geisiadau gyflwyno Datganiad Ieithyddol Cymunedol neu Asesiad Ieithyddol a Chymunedol fel rheol, yn dibynnu ar fath / maint y datblygiad. Atodir polisi RD5 yn llawn ar waelod yr adroddiad. Cafodd y polisi ei gynnwys yn y Cynllun yn unol â chanllawiau mewn dogfen o 2005 "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen".

2.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae Swyddogion wedi tynnu gofynion Polisi RD5 at sylw ymgeiswyr, ac mae Datganiadau Ieithyddol Cymunedol / Asesiadau Effaith wedi eu cyflwyno fel rhan o geisiadau sy'n uwch na'r trothwyon yn y polisi.

2.4 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 wedi bod yn cylchredeg ar ffurf drafft am beth amser ac mae ei gyhoeddi yn ffurfiol nawr yn gosod gofynion penodol ar

Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran ystyried effeithiau datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Gan fod Nodyn Cyngor Technegol 20 yn ôl ddyddio mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a Pholisi RD5, ac yn adlewyrchu cyngor cynllunio cyfredol, bydd o bwys sylweddol nawr wrth ystyried ceisiadau ac apeliadau cynllunio. Yn y cyd-destun hwn, mae Swyddogion yn rhoi gwybod i aelodau am gynnwys allweddol y Nodyn Cyngor Technegol ac yn argymell y dylid ystyried ei gynnwys wrth ystyried a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

2.5 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn ategu'r angen i ystyried effeithiau tebygol ar yr iaith Gymraeg wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol drwy Arfarniad O Gynaliadwyedd, ac mae'n nodi camau i'w dilyn wrth baratoi ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, o safbwynt sut dylid asesu'r effeithiau ar yr iaith.

2.6 Roedd effaith strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar yr iaith Gymraeg yn destun Asesiad o Gynaliadwyedd fel rhan o broses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Bu i hyn adolygu effeithiau posib datblygiad ar gymunedau yn y Sir a bu o gymorth i hysbysu penderfyniadau ar dderbynioldeb y Cynllun, a fabwysiadwyd yn 2013. Bydd Asesiad o Gynaliadwyedd yn rhan hanfodol o adolygiad y Cynllun.

2.7 O ran y broses Reoli Datblygu, mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn ei gwneud yn eglur fod yr iaith Gymraeg yn parhau i fod yn ystyriaeth berthnasol wrth ddelio â cheisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. Mae hyn yn gyson ag Argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru, 2016, nodau Lles cenedlaethol a Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050.

2.8 Adrannau perthnasol Nodyn Cyngor Technegol 20 i'r broses Rheoli Datblygu yw –

- *3.1.2* Wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio unigol, gellir rhoi ystyriaeth i effeithiau ar ddefnyddio'r Gymraeg lle bo'n berthnasol i'r cais. Nid yw adran 70(2) Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall a rhaid i bob penderfyniad ynghylch cais am ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar yr ystyriaethau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol.

- *3.1.3* Ni ddylid fel rheol cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg gan y byddai hynny'n dyblygu gwaith yr AoG a phrosesau dewis safleoedd y CDLl. Cyhyd â bod yr AoG wedi ystyried y Gymraeg, ni fyddai asesu'r effaith yn ystod y broses ymgeisio yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth bellach na'r hyn oedd ar gael wrth baratoi'r CDLl. Fe amlinellir yr unig eithriad i'r rheol hon isod.

  - *3.2 Hap-safleoedd*

  - 3.2.1 Efallai na fydd union leoliad a maint datblygiadau ar hap unigol yn hysbys ar gam llunio'r cynllun, ond gall ACLlau ystyried maint y cyfraniad ar yr adeg hon ac ystyried a all datblygiadau ar hap effeithio ar ddefnydd y Gymraeg. Dylid asesu graddfa fras datblygiadau ar hap a'u heffaith ar ddefnydd y Gymraeg drwy yr un prosesau AoG â pholisïau a dyraniadau safle'r CDLl.

  - *3.2.2* Dylid asesu ceisiadau i ddatblygu safleoedd ar hap yn erbyn strategaeth a pholisïau cynllun datblygu wedi ei fabwysiadu, a chan roi ystyriaeth i bolisïau

cynllunio cenedlaethol priodol.  Pan fydd ACLl yn derbyn cais am ddatblygiad mawr ar safle ar hap o fewn ardal wedi ei diffinio
fel un ieithyddol sensitif neu arwyddocaol gellid cynnal asesiad o effaith debygol y datblygiad ar y  Gymraeg.

- 3.2.3 Safle ag iddo 10 neu fwy o anheddau, neu ddatblygiad dros 1,000metr sgwâr neu 1 hectar  yw'r diffinaid arferol o ddatblygiad mawr ond mae ACLl yn rhydd i bennu ei ddiffiniad ei hun yn  y CDLl ar gyfer y pwrpas yma, yn seiliedig ar dystiolaeth.

2.9 Fel arfer defnyddir y term 'safleoedd ar hap' i gyfeirio at y safleoedd hynny sy'n dod ar gael i'w datblygu yn annisgwyl, ac felly nid yw'r rhain yn cael eu cynnwys fel tir a ddyrannwyd yng nghynllun datblygu awdurdod cynllunio, enghraifft nodweddiadol fyddai safleoedd sydd wedi eu datblygu'n flaenorol. Yn y cyd-destun lleol byddai hyn yn berthnasol yn awtomatig i safleoedd datblygu y tu allan i ffiniau datblygiad a ddiffiniwyd.

2.10 Bellach mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn eglurhad cyfredol o safbwynt Llywodraeth Cymru o safbwynt y weithdrefn i'w dilyn wrth asesu ceisiadau cynllunio. Mae'n egluro na ddylai ceisiadau cynllunio fel rheol, ar wahân i hap-safleoedd, fod yn destun asesiad o effaith ar y Gymraeg lle y byddai hyn yn dyblygu prosesau dewis safleoedd Arfarniad o Gynaliadwyedd a Chynllun Datblygu Lleol. Ym marn Swyddogion mae'r Nodyn Cyngor Technegol o bwys mawr bellach, a byddai'n amhriodol parhau i fynnu ar asesiadau ar gyfer datblygiadau o fewn Ffiniau Datblygiad a ddiffiniwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, fel sy'n ofynnol gan bolisi RD5.

2.11 O ganlyniad, mae Swyddogion yn awgrymu fod y Cyngor yn rhoi cynnwys Adrannau 3.1 a 3.2 Nodyn Cyngor Technegol 20 ar waith yn y cyfnod hyd at adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad newydd, sy'n nodi'r trothwyon mwy cyfyng a'r amgylchiadau lle mae angen cyflawni asesiad o effaith debygol y datblygiad ar anghenion yr iaith Gymraeg.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Fod Aelodau yn cytuno ar y dull gweithredu o safbwynt asesiadau effeithiau ceisiadau cynllunio ar yr iaith Gymraeg yn unol ag Adrannau 3.1 a 3.2 Nodyn Cyngor Technegol 20 hyd nes bydd adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a pholisi RD5 wedi ei gwblhau.

**EMLYN JONES** **PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

## Polisi RD5 Cynllun Datblygu Lleol

## Polisi RD5 – Yr Iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau.

Bydd anghenion a buddiannau'r Gymraeg yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar bob cais cynllunio. Gellid gwrthod datblygiad os bydd ei faint, ei raddfa neu ei leoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.
Er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ar geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, fel rheol bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno:

i) Datganiad Ieithyddol Cymunedol i gyd-fynd â chais cynllunio ar gyfer datblygiadau llai o fewn pentrefi, pentrefi bach neu gefn gwlad agored sy'n cynnwys ceisiadau o'r math canlynol: 5 uned breswyl neu fwy, datblygiad masnachol, diwydiannol neu hamdden / twristaidd gydag ardal llawr o 1000m² neu fwy, datblygiad sy'n debygol o olygu colli cyfleusterau neu gyfleoedd cyflogaeth cymunedol, prosiectau seilwaith gydag effeithiau cymunedol hir dymor;

ii) Asesiad mwy manwl ar ffurf "Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol" i fynd gyda chais cynllunio ym mhob anheddiad ble bo datblygiadau ar raddfa fwy sy'n cynnwys y math canlynol: 20 uned breswyl neu fwy, datblygiad masnachol, diwydiannol neu hamdden / twristaidd gydag ardal llawr o 3000m² neu fwy, prosiectau seilwaith mawr gydag effeithiau cymunedol hir dymor.

Bydd disgwyl i ddatblygwyr ddarparu arwyddion dwyieithog o leiaf fel modd o hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mewn amgylchiadau addas, bydd lliniaru yn erbyn unrhyw effaith niweidiol yn cael ei wneud drwy wneud cyfraniad ariannol yn ofynnol drwy Adran 106 neu fodd arall.